

18 6 2020

Annwyl Rieni/ Gwarcheidwaid,

Rwy'n ymwybodol fod dros wythnos wedi pasio ers i mi ohebu ddiwethaf â chi, ac rwyf yn awyddus i gynnig diweddariad i chi ar baratodau'r ysgol hyd yn hyn, wrth i ni weithio ar wireddu cynlluniau Llywodraeth Cymru ac ailagor ein drysau ar gyfer ein dysgwyr ar 29/06/20. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud gan yr ysgol er mwyn sicrhau y bydd modd i ddysgwyr a staff ddychwelyd yn ddiogel ac yn hapus. Fel y gallwch dychmygu, mae'r her yn fawr a'r amser yn gyfyng ond gallaf eich sicrhau y bydd yr ysgol ar agor a bod y tîm yn Ysgol Glan Clwyd yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r dysgwyr yn ôl, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru.

Yn y diweddariad hwn hoffwn roi amlinelliad i chi o'n trefniadau ni yn Ysgol Glan Clwyd. Ond cyn i mi fanylu, hoffwn bwysleisio na fydd ail-agor yn cynrychioli bywyd ysgol cyffredin yn ailddechrau, a bydd y profiad yn wahanol iawn i'r hyn rydym wedi ei arfer. Mae'r cyfnod hwn yn gyfle i ni ail-gysylltu gyda'n dysgwyr ac i ddatblygu arferion da ar gyfer mis Medi drachefn. Yn naturiol, bydd rhai ohonoch yn disgwyl manylder ac atebion nad oes gennyf ar hyn o bryd, ond byddwn fel ysgol yn cyfathrebu gyda chi a'r dysgwyr rhwng heddiw a'r 29ain o Fehefin gan roi diweddariadau i chi. **Rydym yn gweithio mewn cyfnod cwbl ddigynsail ac mae'n rhaid i mi rybuddio y gall y trefniadau newid eto yn ystod y cyfnod nesaf gan fod canllawiau ac arweiniad cenedlaethol yn newid o ddydd i ddydd.**

Felly, yn yr ohebiaeth yma, fy mwriad yw egluro sefyllfa gychwynnol yr ysgol gan ymgysylltu gyda chi eto mewn amrywiol ffyrdd i ychwanegu manylder dros yr wythnos nesaf. Dyma felly gyfres o gwestiynau perthnasol i ni wrth ailagor:

#### Beth yw'r trefniadau ailagor yn Ysgol Glan Clwyd o ran oriau a dyddiau?

- Bydd YGC ar agor i ddibenion addysgol i ddisgyblion am bedwar diwrnod yr wythnos. Mae hyn er mwyn darparu digon o amser ar gyfer creu ffenestr o 72 awr lle bydd unrhyw drosglwyddiad o feirws yn peidio, ac yn rhoi amser wedi ei neilltuo i staff ganolbwyntio ar agweddau dysgu o bell sy'n mynd i barhau mor greiddiol i'n darpariaeth.
- Am y bedair wythnos, yn cychwyn Mehefin 29ain, bydd disgyblion yn dod i'r ysgol am ddiwrnod yr wythnos fesul blwyddyn, gan ddilyn y drefn isod:

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau
Blwyddyn 10	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
	Grŵp 1 Blwyddyn 12	Grŵp 2 Blwyddyn 12	Grŵp 3 Blwyddyn 12

- Mae'r diwrnod ysgol i'r dysgwyr yn cyrraedd am 9:30 ac yn gorffen am 2:30
- Bydd y ddarpariaeth dysgu o bell yn parhau yn ystod y cyfnod hwn, wrth i ni i symud i ddatblygu'r dysgu cyfunol a fydd rwan yn cyfuno dysgu wyneb yn wyneb gyda dysgo o bell.

#### Sut brofiad fydd hyn i fy mhlentyn yn YGC yn ystod y cyfnod hwn?

- Mae ystafelloedd dysgu YGC wedi eu haddasu i barchu'r rheol pellter 2 fetr yn llawn. Mae capasiti'r ystafelloedd a ddefnyddir yn amrywio o 6-8 disgybl.
- Bydd disgybl yn aros yn yr un ystafell trwy'r dydd ar gyfer y elfennau dysgu. Bydd dysgwyr hefyd yn dychwelyd i'r un ystafell ar gyfer pob un o'u dyddiau yn yr ysgol.
- Mae pump ystafell gyda'i gilydd yn creu Cymuned Ddysgu a bydd y staff yn aros fel tîm addysgu o fewn y Gymuned honno trwy gydol y cyfnod hwn.

- Bydd llwybr penodol ar gyfer pob Cymuned er mwyn dod i mewn ac allan o'r adeilad.
- Mae gan bob Cymuned doiledau penodol wedi'u neilltuo ar eu cyfer.
- Bydd toriadau pwrpasol yn ystod y dydd ar gyfer mynd i'r toiled fesul ystafell.
- Mae tîm o staff yn ystyried nifer o agweddau wrth lunio grwpiau disgyblion. Mae'r broses o gynllunio'r grwpiau'n gymhleth, ac o ganlyniad, rydym yn gofyn am eich cefnogaeth chi trwy ofyn i chi beidio gwneud ceisiadau i'ch plentyn fod mewn grwpiau gyda dysgwyr penodol eraill.
- Bydd gohebiaeth bellach i chi fel rhieni am union gynnwys y gwersi, ond y prif bwyslais fydd gwireddu dyhead llywodraeth Cymru i Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi; gan flaenoriaethu llesiant ein dysgwyr a'u cefnogi i ymgymryd yn effeithiol â'r dysgu cyfunol. Bwriedir cynllunio gweithgaredd yn yr awyr agored, os yw tywydd yn caniatáu, o fewn rhaglen y dydd.
- Bydd pwyslais mawr wrth i ddysgwyr gyrraedd a gadael y safle ar bellter cymdeithasol, a symud diogel ar y safle.
- Bydd pwyslais mawr hefyd ar olchi dwylo a defnyddio glanweithyddion dwylo. Bydd gorsafoedd glanweithyddion wrth bob mynedfa, mewn manau penodol yn yr adeilad ac ym mhob ystafell.

### **Beth fydd y trefniadau o ran bwyta yn yr ysgol?**

- Bydd y tîm arlwyo ar safle yn gweithio yn YGC yn ystod y cyfnod hwn
- Ni fydd brechwast ar gael yn yr ysgol pan fydd y dysgwyr yn cyrraedd, ac ni fydd y dysgwyr yn mynd i'r Hafan i ddewis eu bwyd o gwbl.
- Os yw dysgwyr yn dymuno hynny mae byrbryd amser egwyl a chinio ar gael yn yr ysgol.
- Bydd cyfle i bob dysgwr yn yr ystafell ddsbarth ben bore i archebu ei fwyd am y diwrnod.
- Bydd y bwyd yn cael ei gludo'n ddiogel i'r cymunedau gan y tîm arlwyo, a bydd y dysgwyr yn bwyta yn eu hystafelloedd dosbarth.
- Bydd y gwasanaeth arlwyo yn darparu cinio oer neu ddewis poeth, gan felly ddanfôn a chasglu'r rhain o'r ystafelloedd dosbarth, sydd yn lleihau'r risg yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r cinio ar gael am ddim i bob disgybl yn y cyfnod cychwynnol hwn diolch i gefnogaeth Cyngor Sir Ddinbych.
- Bydd y tîm a'r diod amser egwyl hefyd ar gael am ddim yn y cyfnod cychwynnol gyda'r ysgol yn amsugno'r cost hwn.
- Bydd hawl gan ddysgwyr os nad ydynt yn bwriadu bwyta bwyd ysgol i ddod â pheccyn bwyd.
- Bydd trefniadau golchi dwylo cyn, ac ar ôl, bwyta yn weithredol.
- Bydd trefniadau glanhau hefyd yn eu lle.
- Bydd cyfnod rhydd yn yr awyr agored wedi ei amserlennu ar ôl cinio, ond bydd hyn dan arolygaeth staff, o fewn y Cymunedau yn unig, ac o fewn ardal penodedig o dir yr ysgol.
- Wrth gwrs ni fydd y ffynhonnau dŵr yn weithredol oherwydd y risg o halogiad, ac felly cynghorir disgyblion i ddod â dŵr eu hunain mewn potel i'r ysgol.

### **Beth yw'r trefniadau cludiant er mwyn i'm plentyn gyrraedd yr ysgol?**

- Er mwyn lleihau'r risg o haint, ac yn unol ag anogaeth Llywodraeth Cymru, rydym yn awgrymu i rieni i ddod â'u plant i'r ysgol a pheidio defnyddio cludiant yr ysgol os yw hynny'n bosib.
- Byddwn yn cyfathrebu eto gyda chi i fanylu o ran trefniadau rheoli traffig a threfniadau gollwng a chodi dysgwyr yn YGC.
- Wedi dweud hyn mae cludiant yr ysgol ar gael, ond bydd y gwasanaeth yn wahanol iawn o ran niferoedd ar fysiau er mwyn cadw pellter cymdeithasol
- Pan ddefnyddir cludiant yr ysgol, bydd disgwyl i ddisgyblion gadw at drefniadau pellter cymdeithasol mewn arosfannau bysiau, a chyfrifoldeb y rhieni yw hyn.
- Yn ychwanegol, bydd cynlluniau eistedd yn cael eu gweithredu ar gyfer cludiant ysgol, (i hwyluso'r cyntaf ymlaen – i'r olaf i ffwrdd) a bydd disgwyl i ddisgyblion eistedd yn eu seddi dynodedig yn unig. Gall methiant i wneud hynny arwain at golli eu lle.
- Bydd trefn bendant wrth i ddysgwyr gyrraedd a gadael yr ysgol gyda staff yn goruchwyllo'r trefniadau hyn.

### **A fydd darpariaeth ychwanegol o fewn Ysgol Glan Clwyd yn ystod y cyfnod hwn?**

- Bydd Ysgol Glan Clwyd yn parhau i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol mewn Hwb ar wahân yn ystod y cyfnod hwn.
- Fel rhan o gynnis yr ysgol, rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth ychwanegol mewn cymuned ychwanegol i ddysgwyr bregus a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- Rydym hefyd yn cynllunio cefnogaeth ychwanegol i'r cymunedau dysgu uchod i ddysgwyr Trochi Blwyddyn 7 ac 8, yn ogystal â'r Trochwyr ym Mlwyddyn 6.

### **A fydd darpariaeth ychwanegol i ddisgyblion Bl.10 a 12 gan eu bod ar ganol cyrsiau arholiad?**

- Yn ystod y cyfnodau cychwynnol yn yr ysgol bydd Bl.10 a 12 yn canolbwyntio ar agweddau llesiant a sicrhau ymgysylltiad gyda gyda'r dysgu cyfunol. Yn achos Bl.12 bydd rhaglen bwrpasol i gefnogi gyrfa trwy UCAS hefyd.
- Byddai'n anodd iawn disgwyl i ddysgwyr Blwyddyn 10 a 12 gychwyn yn syth ar waith ffurfiol yn eu cyrsiau dewis. Er nad ydym wedi derbyn manylion am y newidiadau i gyrsiau TGAU a Safon Uwch, rydym yn ymwybodol bod CBAC a Cymwysterau Cymru yn ystyried addasiadau i'r cyrsiau er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn rhesymol i ddysgwyr eu cyflawni. Byddwn yn cysylltu gyda chi'n syth pan gawn y manylion hynny – ac rydym yn pwysu am y wybodaeth yn ddyddiol. Mae hyn yn golygu nad oes modd i'r ysgol gynllunio dysgu cynnwys newydd ar hyn o bryd hyd nes bod arweiniad pellach gan CBAC.
- Fodd bynnag, mae gwersi 'ffrydio byw' ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau Bl.12 am barhau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r 'ffrydio byw' yn ei gwneud yn bosib i gael cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng athrawon penodol a grwpiau amrywiol o ddysgwyr, heb dorri rheolau cymysgu cymdeithasol a'n rheoliadau rheoli haint.
- Yn yr un modd rydym yn gweithio gyda'r adrannau craidd i roi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr Blwyddyn 10 yn ystod y cyfnod hwn.

### **Beth fydd yn ddisgwyliedig o ran gwisg ysgol yn ystod y cyfnod hwn?**

- Ni fydd angen gwisgo'r wisg ysgol yn ystod y cyfnod hwn cyn yr haf, ond hoffwn i'r disgyblion wisgo dillad priodol sy'n gyfforddus ac yn addas ar gyfer gweithgareddau ymarferol a chorfforol yn yr awyr agored. Gofynnwn am gydweithrediad a chefnogaeth rhieni er mwyn sicrhau gwisg briodol - ni chaniateir topiau cwta, siorts na sgertiau byr iawn na thopiau wedi eu torri'n isel.

### **Nid wyf wedi cofrestru fy mhlentyn i ddod yn ôl. Ydw i'n cael newid fy meddwl?**

- Y plant hynny sydd wedi cofrestru i ddychwelyd i'r ysgol yn unig fydd yn cael mynychu oherwydd ni fydd digon o staff nac ystafelloedd â chyfarpar ar gael i wasanaethu rhai hwyr yn ddiogel. Ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw ddysgwr yn yr ysgol sydd heb gofrestru'n swyddogol.
- Os ydych yn newid eich meddwl ac yn awyddus i gofrestr eich plentyn i ddod i'r ysgol mae hynny'n hollol dderbyniol – OND mae'n rhaid cysylltu'n uniongyrchol gyda ni. Gwneir hyn trwy e-bostio Mr John Evans (Pennaeth Cynorthwyol) ar: [schoolcomms@ysgolglanclwyd.co.uk](mailto:schoolcomms@ysgolglanclwyd.co.uk)
- Byddwn yn disgwyl wythnos lawn o rybudd cyn i'ch plentyn gael dychwelyd, er mwyn i'r ysgol allu addasu ein darpariaeth yn ddiogel.

### **A oes ystyriaethau iechyd a diogelwch eraill?**

- Ni ddylai unrhyw ddysgwr ystyried dod i'r ysgol os yw'n teimlo'n sâl yn ystod y cyfnod hwn.
- Bydd ardal wedi ei neilltuo yn benodol ar gyfer unrhyw ddysgwr a fyddai'n teimlo'n sâl yn ystod y diwrnod ysgol.
- Bydd Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r holl staff sy'n rhoi Cymorth Cyntaf, a bydd CDP ar gael i'r staff sydd angen os nad yw'n bosibl cadw'r pellter cymdeithasol.
- Nid oes gofyn i staff na disgyblion wisgo CDP, cyn belled â bod pellter cymdeithasol yn gallu cael ei gadw. Fodd bynnag, os oes unrhyw staff neu ddisgyblion yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, eu dewis fyddai hynny a byddai hynny'n cael ei gefnogi.
- Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer salwch disgyblion, argyfwng tân ac ymddygiad disgyblion wedi cael ei addasu i adlewyrchu'r gofynion newydd ar gyfer ail-agor.

Hoffwn ymddiheuro fod yr ohebiaeth hon mor faith, ond fel y gallwch werthfawrogi mae cymaint o wybodaeth yr ydym angen ei rannu â chi. Ni fydd ateb i bob cwestiwn yn y llythyr hwn ond byddwn yn cyfathrebu gyda chi eto yn ystod yr wythnos nesaf. Rwyf eisoes wedi pwysleisio ein bod yn gweithredu ar hyn o bryd mewn amodau cwbl unigryw ac mae posibilrwydd yn ddyddiol fod y trefniadau yn gorfod newid o ganlyniad i newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol neu ranbarthol.

Ond unwaith eto hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch amynedd yn ystod y cyfnod hwn. Hoffwn ddiolch i'r staff sy'n gweithio mor ddygn ar hyn o bryd er mwyn gweithredu ein cynnig fel Ysgol Glan Clwyd. Yn olaf hoffwn bwysleisio ein bod yn edrych ymlaen yn arw at weld ein dysgwyr unwaith eto a chael ail-afael wyneb yn wyneb â theulu Ysgol Glan Clwyd. Ond byddwn yn gwneud hynny'n gyfrifol ac yn ddiogel bob amser.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Gwyn Tudur". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Gwyn Tudur

**Pennaeth**